Prosbectws
Ysgol Gymraeg Teilo Sant

(www.ysgolteilosant.cymru)



Stryd Rhosmaen
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6LU
01558 823489
PENNAETH : Ioan Jones
CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR: Mr Will Lloyd Davies

CYFLWYNIAD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r copi hwn o brospectws Ysgol Gymraeg Teilo Sant i'ch sylw.

Pwrpas y prospectws yw rhoi braslun o fywyd yr ysgol. Ynddo cewch ddatganiadau clir o bolisïau'r ysgol yn academaidd a chymdeithasol. Trwy ei ddarllen, cewch brofi peth o naws yr ysgol a gellir ei brofi ymhellach wrth ymweld â'r athrawon a'r disgyblion a'n gweld wrth ein gwaith. Mae croeso i rieni ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'r swyddfa ar ebost neu ar y ffôn.

Un o'r pethau y gall yr ysgol hon ymfalchïo ynddo yw ei pherthynas agos â chartrefi'r disgyblion yn ei gofal. Hyderir y bydd y prospectws hwn yn gyfrwng pellach i atgyfnerthu'r berthynas honno.

Mae aelodau staff yn bresennol ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd er mwyn agor a chau gatiau. Bydd rhaid i bob ymwelydd gael mynediad trwy brif fynediad yr ysgol. Mae'r gyfundrefn hon yn sicrhau bod diogelwch ein disgyblion yn un o'n prif flaenoriaethau.

Ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg yw Teilo Sant, ac felly cydymffurfiwn â chanllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir islaw:

Y cwricwlwm

Fel cymuned ysgol rydym yn darparu addysg o ansawdd uchel gan sicrhau profiadau addysgiadol cyfoethog er mwyn datblygu'r disgybl cyflawn. I wneud hyn rydym yn datblygu'r pedwar diben yn wraidd i holl weithgarwch yr ysgol er mwyn rhoi'r cyfle i bob plentyn ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Defnyddir fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cenedlaethol er mwyn datblygu sgiliau'r dysgwyr gan ddatblygu eu dealltwriaeth a gwybodaeth yn draws gwricwlaidd. Gwneir hyn trwy ddilyn themâu gan gynnwys llais y disgyblion ar y daith o gynllunio ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd, sef:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Mathemateg a Rhifedd;
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg;
- Iechyd a Lles;
- Dyniaethau;
- Celfyddydau Mynegiannol.

Iaith yr Ysgol

Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau

Fel rheol, disgwylir y bydd disgyblion, beth bynnag yw iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant wedi cyrraedd, erbyn diwedd Cam Cynnydd 3 yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.

PENNAETH	Mr Ioan Jones
ATHRAWON	Mrs Maureen Williams (Pennaeth Cynorthwyol) Mr Aled Prytherch (CADY ac UDRh) Mrs Sara Jones Mr Ryan John Mrs Nia Brisco Mrs Elen Donath Miss Lowri Jones
CYNORTHWYYDD DOSBARTH	Miss Lowri Jones (Lefel 4) Ms Amanda Jones (Lefel 4) Mrs Heather Davies (ELSA) Miss Emily Smith Mrs Avril Desvaux de Merigny Mrs Andrea Evans Mrs Nerys Howell Mrs Nerys Davies Mrs Meryl Thomas
ATHRAWON PERIPATETIG:	Mrs Angharad Morgan – Ffidil Mr Chris Potter – Pres Mr Jonathan Morgan – Llais Mrs Catrin Organ – Gitâr Mr Andy Jackson – Chwythbrennau Mrs Georgina Cornock-Evans – Telyn
SWYDDOGION GWEINYDDOL:	Miss Lisa Roberts
GOFALWR:	Mrs Manher Hwangbo

CYNORTHWYWYR AWR GINIO: Miss Samantha Dyer, Emma Matthews a chynorthwywyr dosbarth.

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL TEILO SANT

Mr Will Lloyd Davies - Cadeirydd
Mr Emyr Davies
Mrs Carys Davies
Mr Rob Walters
Cyng. Sian Lewis
Mrs Ann Jones
Mrs Cassie Greville
Mr Llyr Davies
Mrs Rachel Adams
Mrs Carys Edwrads
Mr Alex Cook
Mrs Sioned Rowlands
Mr Aled Prytherch
Mrs Nia Brisco
Miss Lowri Jones







DYDDIADAU'R TYMHORAU AM Y FLWYDDYN A DIWRNODAU CAU HMS

Gweler App yr ysgol a'r gwefan neu cysylltwch â'r ysgol.

AMSERAU YSGOL

Derbyn, Bl1 & 2:	9.00 y.b. - 11.45 y.b.	12.45 y.p. - 3.15 y.p.
Bl 3,4,5 a 6	9.00 y.b. - 12.00 y.p.	1.00 y.p. - 3.30 y.p.
Meithrin	9.00 y.b. - 11.30 y.b.	12.45 y.p. - 3.15 y.p.

Gofynnir i chwi wneud yn siŵr fod eich plant yn cadw'n brydlon at yr amserau uchod er mwyn meithrin arferion cymdeithasol gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

Gofynnir yn garedig i rieni i **beidio** anfon eu plant i'r ysgol tan ddeng munud cyn dechrau sesiwn y bore h.y. dim cyn 8.50 y.b. Nid oes darpariaeth gofal swyddogol cyn hynny.



MYNEDIAD I YSGOL GYMRAEG TEILO SANT

Fel rheol derbynnir plant i'r dosbarth Meithrin ar sail ran-amser y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Derbynnir plant i addysg lawn-amser ar ddechrau tymor eu pedwaredd pen- blwydd. Yn cydymffurfio â Pholisi Derbyn yr AALl, dyma drefniadau derbyn yr ysgol hon.

Tymor 1 - Pob bore 9.00.- 11.30 y.b.
Tymor 2 – Pob bore 9.00.- 11.30 y.b.
Tymor 3 – Pob prynhawn 12.45 - 3.15 y.p.
Tymor 4 – Addysg Llawn Amser 9.00 y.b. – 3.15 y.p.

Mae'r trefniant yn un parhaol. Gofynnir yn garedig i'r rhieni hynny nad ydynt yn awyddus i'w plentyn fod yn yr ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r 4ydd tymor i gysylltu â'r ysgol er sefydlu telerau presenoldeb rheolaidd a chyson.

Dylid gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol gan rieni drwy wneud cais electronig ar-lein i'r Adran Derbyn Plant, Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Gwahoddir plant a rhieni i'r dosbarth am gyfnod yn ystod y tymor cyn eu derbyn i'r ysgol ar gyfer sesiynau Iaith a Chwarae.

Wrth i'r plant ddechrau yn yr Uned Feithrin bydd rhieni'n derbyn Pecyn Cyn Ysgol sy'n cynnwys, gwybodaeth am drefn y dosbarth/ysgol, ac yn nodi gweithgareddau y gellid eu cyflawni i gynorthwyo plentyn i ymgartrefu yn ein mysg.





GWEITHDREFN GWYNO

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu polisi'r AALl ac mae copi ar gael ar ein gwefan.

NODAU'R YSGOL

1. Darparu cyfleoedd sy'n galluogi pob unigolyn i ddatblygu i'w lawn potensial yn academaidd, cymdeithasol, diwylliannol, moesol ac yn gorfforol.

2. Magu parch, balchder a diddordeb yn ein hiaith a'n diwylliant ni fel Cymry.

3. Darparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol ar gyfer pob disgybl, fydd yn cydnabod cydraddoldeb wedi ei seilio ar angen, rhyw a tharddiad ethnig.

4. Darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu fydd yn annog meddwl hyblyg a beirniadol.

5. Annog y nodweddion ac agweddau sylfaenol sy'n arwain at hunan-barch, parch at bopeth byw a goddefgarwch tuag at eraill.

6. Rhoi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a magu parch a diddordeb tuag at eu hiaith, diwylliant a'u hamgylchedd.

7. Annog a datblygu diddordebau a sgiliau eang fydd yn sicrhau parhad a dilyniant mewn addysg ar ôl ysgol ynghyd â defnydd addas o oriau hamdden.





POLISI IAITH

Gan fod Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn ysgol benodedig Gymraeg, iaith swyddogol yr ysgol yw Cymraeg.

Cyflwynir y Saesneg yn raddol yn cam cynnydd 2, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddatblygu yn gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol gynradd.

Mae ethos gwbl Gymreig yr ysgol yn adlewyrchu a chreu ymwybyddiaeth a balchder ymysg y disgyblion o'n hiaith, ein diwylliant a'n traddodiadau fel cenedl.







GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol. Gofynnir am gefnogaeth rhieni i sicrhau eu gwisgo.

Merched Gaeaf	Bechgyn Gaeaf
Crys polo coch + logo'r ysgol	Crys polo coch + logo'r ysgol
Crys chwys coch + logo'r ysgol	Crys chwys coch + logo'r ysgol
Fleece coch +logo'r ysgol	Fleece coch +logo'r ysgol

Gellir archebu'r uchod am bris rhesymol gan Igam Ogam Llandeilo neu "RELM signs", Llandeilo.

Sgert lwyd	Trowsus llwyd
Leggings/trowsus llwyd/du	Trowsus loncian plaen llwyd/du-dim logo
trowsus loncian plaen-dim logo	
Teits du/Sanau gwyn	Sanau llwyd
Esgidiau addas	Esgidiau addas

Merched Haf	Bechgyn Haf
Ffrog Gingham coch a gwyn	Shorts llwyd/du
Siorts llwyd/du/gwyn	
Crys polo coch + logo	Crys polo coch + bathodyn
Crys chwys coch + logo	Crys chwys coch + logo
Sanau gwyn	Sanau gwyn
Esgidiau addas	Esgidiau addas

Gwisg Addysg Gorfforol
Shorts du/ Trowsus loncian plaen du-dim logo
Crys T gwyn + logo
Esgidiau addas



TREFNIADAETH Y CWRICWLWM



Dysgir y Cwricwlwm trwy ddull thematig a thrawsgwricwlaidd. Trefnir y dosbarthiadau hyd y gellir yn ôl blynyddoedd oedran. Defnyddir amrywiaeth eang o ddulliau dysgu yn ôl anghenion pwnc a thasg a'r grwpiau dysgu o fewn y dosbarth, e.e. gwaith grŵp, unigolyn, dosbarth, llafar, cofnodol, gwrando ac ymchwil. Mae'r athro/athrawes yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pob grŵp o ddysgwyr, gan roi cymorth wedi'i deilwra i unigolion lle bo angen.

Darperir addysg arbennig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cael trafferth â rhai agweddau o'r Cwricwlwm. Gwneir hyn ar sail arsylwaeth athro/athrawes, canlyniadau profion safonedig, adroddiadau asiantaethau allanol a thrafodaeth barhaol â rhieni.

1. Bydd pob plentyn yn cael ei addysgu mewn amgylchedd, sy'n cydnabod y rhieni fel yr addysgwyr cyntaf a pharhaus er mwyn datblygu partneriaeth, sy'n seiliedig ar gyd-barch a diddordeb y plentyn.

2. Bydd profiadau pob plentyn yn yr ysgol yn cychwyn o'r hyn y gallant ei wneud, ac adeiladir ar hyn.

3. Bydd pob plentyn yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sy'n datblygu eu hymwybyddiaeth o hynodrwydd Cymru, ei hiaith a'i diwylliant.

4. Bydd pob plentyn yn cael ei addysgu gan oedolion sydd wedi eu hyfforddi neu'n brofiadol addas i gefnogi dysgu plant ifanc.

5. Bydd pob plentyn yn cael ei addysgu mewn amgylchedd perthnasol diddorol lle y bydd plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu, trwy archwilio, sgwrsio a chwarae.

6. Bydd pob plentyn yn cael cydbwysedd o weithgareddau sy'n cael eu harwain gan blant ac oedolion er mwyn datblygu eu gallu i wneud penderfyniadau.

7. Darperir ystod eang a diddorol o brofiadau, sy'n berthnasol i anghenion a datblygiad pob plentyn.





GWAITH CARTREF

Nid ydym yn gosod gwaith cartref ffurfiol i'w gwblhau. Yn hytrach, rydym yn annog rhieni i atgyfnerthu medrau darllen a rhifedd eu plant gartref drwy ddarllen gyda nhw'n rheolaidd ac ymarfer tablau rhif. Mae amrywiaeth o weithgareddau llythrennedd a rhifedd ar gael drwy gyfrif HWB pob disgybl.



ASESU

Rydym yn asesu a thracio cynnydd disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith gan ddarparu adborth adeiladol i ddisgyblion ar eu cyrhaeddiad a chyfleoedd pwrpasol iddynt ymateb i adborth yr athrawon er mwyn gwella eu gwaith a'u cyrhaeddiad.

NOSWEITHIAU RHIENI/CYSYLLTIADAU RHIENI

Cynhelir nosweithiau rhieni'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn lle ceir y cyfle i drafod cynnydd y disgybl yn fanwl. Gan fod cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng y cartref â'r ysgol yn allweddol bwysig i ddatblygiad a lles pob disgybl, mae croeso i rieni gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod materion sy'n codi gyda'r athro/athrawes dosbarth.

Yn Ysgol Gymraeg Teilo Sant rydym yn cymeradwyo rhieni i fod yn rhan weithredol o addysg eu plant.







GOFAL BUGEILIOL

Mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am y plant yn eu dosbarthiadau, a'r Pennaeth a chyfrifoldeb dros y cyfan. Cysylltir â rhieni mewn unrhyw achos o bryder neu argyfwng.

O bryd i'w gilydd bydd swyddogion meddygol a deintyddol yr Awdurdod Iechyd yn ymweld â'r ysgol. Caiff y rhieni'r wybodaeth angenrheidiol cyn yr ymweliadau hyn, a chysylltir â hwy os cwyd unrhyw broblemau yn eu sgil. Gwna'r ysgol ddefnydd hefyd o wasanaethau eraill yn yr Awdurdod megis y Gwasanaeth Seicolegol a'r Gwasanaeth Lles.

GWERSI OFFERYNNOL

Trefnir gwersi offerynnol dan arweiniad athrawon teithiol ar gyfer: offerynnau pres, lleisiol, ffidl, chwythbrennau, gitâr a thelyn. Codir tâl am y gwersi hyn.

CYSWLLT â RHIENI

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon brwdfrydig a chefnogol. Ceir o leiaf un gweithgaredd y tymor sy'n gyfle i gyd-gymdeithasu er lles addysg pawb sy'n mynychu'r ysgol. Y mae croeso i bob rhiant ymuno yng ngweithgarwch y Gymdeithas.

TREFNIADAU TYWYDD GARW

Gwneir pob ymdrech i hysbysu rhieni â threfniadaeth cau'r ysgol oherwydd tywydd garw. Gall hyn fod trwy app yr ysgol, tudalen Facebook yr ysgol a gwefan yr Awdurdod Lleol.

TALIADAU AR GYFER GWEITHGAREDDAU

Wrth drefnu rhai o weithgareddau'r ysgol, fe all fod costau'n codi ac yn sgil hyn, fe ellir gofyn i rieni gyfrannu i gefnogi'r gweithgareddau. Gallai'r gweithgaredd a fwriadwyd fod mewn perygl o gael ei ddileu oherwydd diffyg arian. Am wybodaeth pellach gweler polisi taliadau ac ad-daliadau.





PRESENOLDEB YN YR YSGOL

Disgwylir i bob plentyn fod yn bresennol yn rheolaidd yn yr ysgol gyda tharged o bresenoldeb 96% i fyny am y flwyddyn. Gweithredir polisi clir o gategoreiddio absenoldeb disgybl.

1. <u>Absenoldeb gyda chaniatâd</u>:
   Caniateir i ddisgybl fod yn absennol oherwydd:
   - profedigaeth deuluol
   - salwch
   - apwyntiad meddyg/deintydd
   - dyddiau gŵyl grefyddol.

2. <u>Absenoldeb heb ganiatâd</u>:
   Ni chaniateir absenoldeb disgybl am y rhesymau canlynol: -
   - siopa
   - ymweliadau personol/teuluol yn ystod oriau ysgol
   - cyrraedd yn hwyr i'r ysgol heb reswm digonol (cofrestri yn cau am 9.10 yb i bob dosbarth, ac 1.10 yp)
3. <u>Gwyliau blynyddol y teulu</u>
   Gofynnir yn garedig i rieni i beidio â threfnu gwyliau adeg ysgol os yn bosibl rhag

amharu ar ddilyniant addysg eu plant. Ar adegau nad yw'n bosib osgoi hyn mae ffurflenni cais pwrapsol ar gyfer gofyn am ganiatâd i fynd ar wyliau yn ystod y tymor ar gael ar ein gwefan neu o swyddfa weinyddol yn yr ysgol.


HYSBYSU ABSENOLDEB

Mae'n ddisgwyliedig i riant rhoi galwad ffôn neu neges ar ap yr ysgol os yw disgybl yn absennol. Os na cheir y wybodaeth, bydd yr ysgol yn ffonio'r cartref i sicrhau'r wybodaeth, heblaw hyn, cofnodir yr absenoldeb fel un heb ganiatâd.

AMDDIFFYN PLANT

Mae gan yr ysgol bolisi Amddiffyn Plant sydd ar wefan yr ysgol. Cynhelir hyfforddiant yn rheolaidd, ac mae unrhyw faterion yn ymwneud â Diogelu Plant yn cael eu trin ar unwaith fel materion brys.





BWLIO

Fel ysgol, rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gofalgar, cyfeillgar a diogel ar gyfer pob un o'n disgyblion fel y gallant ddysgu mewn awyrgylch hamddenol a diogel. Mae bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol yn ein hysgol. Os bydd bwlio yn digwydd, dylai pob disgybl fod yn gallu dweud a gwybod y bydd digwyddiadau yn cael eu trin yn brydlon ac yn effeithiol. Mae hyn yn golygu y dyle *unrhyw un* sy'n gwybod bod bwlio yn digwydd i ddweud wrth y staff. Am wybodaeth pellach gweler polisi bwlio'r ysgol.





DIWYLLIANNOL

Rhoddir y cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol, a chefnogir holl weithgareddau'r Urdd. Anogi'r disgyblion i ymaelodi â'r Urdd.

Cyfrannu eitemau ar gyfer raglenni addysg ysgolion yn ogystal â rhaglenni teledu a radio Cymraeg.

Cystadlu yng nghystadlaethau lleol a chenedlaethol.









CYNHWYSIANT

Mae gan bob plentyn yr hawl i'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd. Pan mae gan blentyn anabledd/anghenion dysgu ychwanegol, mae'n hanfodol bod yr anghenion hynny yn cael eu hadnabod yn gywir mor gynnar â phosib. Mae'r un mor bwysig fod ymyrraeth effeithiol gynnar ar gael i'r plentyn ynghyd â chefnogaeth emosiynol ac ymarferol i'r rhieni.

Plant sy'n derbyn gofal

Mae gan blant sy'n derbyn gofal yr hawl i ddisgwyl y canlyniadau yr ydym am i bob plentyn - y dylent fod yn iach, aros yn ddiogel, mwynhau a chyflawni, gwneud cyfraniad positif i gymdeithas a chyflawni lles economaidd. Er mwyn cyflawni'r pum canlyniad yma i blant sy'n derbyn gofal, bydd Teilo Sant yn dangos yr ymrwymiad cryfaf i helpu pob plentyn y maent yn gofalu amdano, lle bynnag y lleolir y plentyn, i gyrraedd y safonau addysgol uchaf posibl. Mae hyn yn cynnwys cefnogi eu dyheadau i gyflawni mewn addysg bellach ac uwch.

Cyfleoedd cyfartal

Sicrhawn fod pob disgybl yn yr Ysgol yn cael yr un cyfle i ddysgu - a dyma ein rôl, i ddarparu cyfleoedd hynny.

Anghenion Dysgu Yschwanegol (ADY)

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion, waeth beth yw eu gallu, hil, crefydd, rhyw, galluoedd, teulu ac amgylchiadau cymdeithasol. Mae ein polisi'n sicrhau bod pob aelod o'n cymuned yn parchu eraill ac yn cael ei barchu, yn cyflawni ei llawn botensial ac yn cael ei groesawu a'i werthfawrogi.
Mae'r Cod ADY Statudol yn cael ei weithredu gan yr ysgol. Cydnabyddir y bydd angen rhywfaint o addysgu disgyblion arbenigol er mwyn iddynt elwa'n llawn o'r cwricwlwm. Gwelir addysgu ar ffurf integreiddio o fewn yr ystafell ddosbarth, tynnu disgyblion naill ai mewn grŵp neu yn unigol yn unol â gofynion. Mae gan yr ysgol aelodau dynodedig o'r Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am ADY sy'n cydgysylltu'n rheolaidd â'r ysgol, llywodraethwyr ac asiantaethau allanol.

Cydraddoldeb i'r anabl

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn nodi ein hagwedd tuag at hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl ymhob agwedd o fywyd ein hysgol.

	Partneriaeth Rhieni/Disgybl/Ysgol		
	Fel rhiant byddaf yn gwneud fy ngorau i	**Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau i**	**Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau i**
Bod yn barod i'r ysgol	• anfon fy mhlentyn i'r ysgol yn lan a thaclus ac mewn gwisg os yw'n bosibl. • sicrhau fod yr offer addas ganddo ar gyfer diwrnod ysgol e.e. cas bensiliau, gwisg ymarfer corff.	• gadw fy hun yn lân a thaclus a gwisgo fy ngwisg ysgol os yn bosib. • ddod â'r offer addas ar gyfer gwneud fy ngwaith yn yr ysgol.	• hyrwyddo gwisgo'r wisg ysgol swyddogol a glendid a thaclusrwydd personol. • sicrhau fod y plentyn yn ymwybodol o'r offer sydd angen ar gyfer y diwrnod ysgol.
Presenoldeb/ Prydlondeb	• sicrhau fod fy mhlentyn yn bresennol ac yn brydlon bob dydd	• fynychu'r ysgol yn ddyddiol ac yn brydlon.	• annog presenoldeb a phrydlondeb bob amser.
Gwaith dosbarth a Gwaith cartref	• cymryd diddordeb gweithredol yng ngwaith fy mhlentyn a'i gefnogi tra'n ei wneud. • annog fy mhlentyn i wneud ei orau. • sicrhau fod fy mhlentyn yn gwneud ymarfer sgiliau llythrennedd a rhifedd adref.	• wrando ar fy athro a gweithio'n galed. • wneud yn siŵr fy mod yn gwybod yn union beth yw'r dasg gwaith. cartref cyn gadael yr ysgol, ei wneud a'i ddychwelyd yn brydlon ac yn daclus.	• ddysgu'n effeithiol ac yn bwrpasol. • paratoi eich plentyn mewn ystod eang o destunau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac ar gyfer ei dyfodol. • osod gwaith pwrpasol a'i farcio'n ystyrlon ac yn rheolaidd. • osod gwaith cartref yn rheolaidd.
Ymddygiad	• annog fy mhlentyn i feithrin safonau uchel o ymddygiad bob amser.	• ymddwyn yn dda o fewn a thu allan i'r ysgol • ddilyn rheolau'r ysgol	• annog safonau uchel o ymddygiad bob amser yn unol â rheolau'r ysgol
Cymorth Bugeiliol	• hysbysu'r ysgol os oes yna broblem sy'n debygol o effeithio addysg fy mhlentyn	• adael fy athro wybod os oes unrhyw ofidiau gennyf cyn gadael yr ysgol am y dydd.	• wrando ar, ac ymateb i broblemau neu ofidiau ar unwaith.
Cysylltiadau cartref/ysgol	• fynychu cyfarfodydd rhieni. • darllen llythyron o'r ysgol ac ymateb iddynt os oes angen. • cefnogi'r ysgol a'i rheolau lle bo angen e.e. disgyblaeth.	• ddangos pob llythyr, a roddwyd i mi gan yr ysgol i'm rhieni.	• gynnal cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd. • adrodd yn rheolaidd ar ddatblygiad, presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn yn yr ysgol. • eich hysbysu am unrhyw ofidiau sydd gennym ynglŷn â'ch plentyn.
Bywyd allgyrsiol yr ysgol	• cefnogi gweithgareddau y mae'r ysgol yn ei chynnal.	• fanteisio ar y cyfleoedd sy'n agored i mi yn yr ysgol e.e. nofio, cyngherddau.	• eich hysbysu am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu mae'r ysgol yn rhan ohonynt.
Yr Iaith Gymraeg	**Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru mae'n ddisgwyledig,** • bod fy mhlentyn yn parchu a defnyddio'r Iaith Gymraeg ar bob achlysur yn yr ysgol. • bod fy mhlentyn yn siarad Cymraeg â'i cyfoedion tu allan i'r dosbarth er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol a dod yn rhugl ddwyieithog. • bod fy mhlentyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd er mwyn dod yn ddinesydd cwbl ddwyieithog. • bod fy mhlentyn/plant yn cael eu dysgu yn y Gymraeg a bod yn rhugl yn y Gymraeg. Credaf fod cael agwedd bositif tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd yn hanfodol bwysig. • bod ni fel rhieni yn cefnogi nodau ac amcanion yr ysgol sy'n ymwneud yn benodol â'r defnydd o'r Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd ar draws yr ysgol gan y staff a'r disgyblion. Deallaf fo'r ysgol yn cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r rhieni a chynhelir gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg.	• barchu a defnyddio'r Iaith Gymraeg ar bob achlysur yn yr ysgol. • siarad Cymraeg â fy nghyfoedion tu allan i'r dosbarth er mwyn rhoi'r cyfle gorau i mi ddatblygu fy sgiliau ieithyddol a dod yn rhugl ddwyieithog. • astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd er mwyn dod yn ddinasydd cwbl ddwyieithog. • fanteisio i gael fy nysgu yn y Gymraeg a bod yn rhugl yn y Gymraeg. Credaf fod cael agwedd bositif tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd yn hanfodol bwysig. • gefnogi nodau ac amcanion yr ysgol sy'n ymwneud yn benodol â'r defnydd o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd ar draws yr ysgol gan y staff a finnau fel disgybl. Deallaf fo'r ysgol yn cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r rhieni a chynhelir gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg.	• annog pob disgybl i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg ar bob achlysur yn yr ysgol. • annog pob plentyn i siarad Cymraeg â'i gilydd tu allan i'r dosbarth er mwyn rhoi'r cylfe gorau iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol a dod yn rhugl ddwyieithog. • annog pob disgybl i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd er mwyn dod yn ddinasyddion cwbl ddwyieithog. • addysgu pob plentyn yn y Gymraeg (a Saesneg o flwyddyn 3 ymlaen), er mwyn iddynt fod yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg. Credwn fod cael agwedd bositif tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd yn hanfodol bwysig. • hybu nodau ac amcanion yr ysgol sy'n ymwneud yn benodol â'r defnydd o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd ar draws yr ysgol gan y staff a'r disgyblion. Cyfathreba'r ysgol yn ddwyieithog gyda'r rhieni a chynhelir gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg.



Ein Gweledigaeth

Ein cynefin a'n hiaith yw ein seilwaith
Tegwch a pharch ddaw â chlod
Hapus ac iach - yn llawn afiaith,
Uwch na'r copa yw'n nod.